
Spring 24 | Edition 05

# AIC Cymru

WORKING IN SUPPORT OF **MODERN SUSTAINABLE COMMERCIAL AGRICULTURE**



## Welcome

**Dear AIC Members,**

**Welcome to the spring AIC Cymru Journal for 2024, bringing you key updates on those issues, policies and directions that are specific to Wales.**



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# Latest Welsh policy work

**Over the past few months AIC Cymru has been engaged in a wide range of issues of importance to Members. In this newsletter you will find key updates on political changes in Wales, policy development, as well as the impacts that extreme weather is having on Welsh agriculture.**

We have seen significant political change recently with Vaughan Gething MS appointed as the new First Minister of Wales on 16 March.

He quickly assembled his new cabinet with Huw Irranca-Davies MS being announced as the new Cabinet Minister with a combined role of Rural Affairs Minister and Climate Change Minister.

AIC Cymru has written to the new minister to welcome him, and voice support for the logical combined ministerial brief he now holds. A face-to-face meeting with the minister has been requested so that AIC Cymru can highlight the much-valued close working relationship with the previous Rural Affairs Minister, Lesley Griffiths MS, and how we can build further on this.

Huw Irranca-Davies inherits the significant farmer and stakeholder backlash, despair, and frustration over the proposed universal actions of the Sustainable Farming Scheme (SFS) consultation.

The SFS consultation closed in early March. AIC Cymru joined the many responses voicing major concerns over the current policy given the Welsh Government's own primary economic impact assessment which alluded to the loss of over 5,000 jobs, livestock numbers reduced by hundreds of thousands, and a loss of £199 million from the sector as a consequence. The wider economic "multiplier" effect, while not assessed, would be even more catastrophic.

All opposing stakeholders, including AIC Cymru, are against key universal actions, particularly the 10% tree cover and 10% biodiversity habitat cover on all farms in Wales. This goes against farm business resilience and food productivity just as food security becomes a great national discussion.

At the time of writing there has been no detail on financial stability support, nor a clear understanding of the payments for these universal actions.

AIC Cymru, along with a high level agri-supply business delegation, relayed these worries to Mark Alexander – Deputy Director Land Reform Welsh Government in a closed meeting on the 19 February in Cardiff.

*Continued on page 2*

The new minister now has an opportunity for true co-design of the scheme, and AIC Cymru has been proactive in offering its input, expertise, and engagement in such a process going forward.

All this uncertainty is set against a backdrop of prolonged wet weather which has had extreme impacts on Welsh agriculture, highlighting the urgent need for government acknowledgement and short-term measures to support the farming sector.

It was welcome that the minister convened an online stakeholder meeting to obtain immediate and firsthand insights and suggested actions. AIC Cymru was invited to attend and asked to provide our assessment from an agri-supply industry's perspective.

AIC Cymru has stressed that the extreme wet weather again underlines the need for Welsh Government to recognise the importance of a future policy that provides stability to farm businesses to safeguard domestic food production in times of volatility.

# Wet weather takes its toll on Welsh agriculture


**The following key asks have been put forward to Welsh Government to seek help in supporting farmers through the current crisis:**

- In the short-term, Welsh Government must show flexibility in the delivery of various scheme requirements, including cross compliance for the Basic Payment Scheme (BPS) and other rural investment schemes, such as the Growing for the Environment Scheme, introducing derogations where necessary.
- Natural Resources Wales (NRW) must work with farmers and adopt a sensible approach to regulation that demonstrates flexibility and understanding of the on-the-ground conditions.
- To build longer-term resilience there is a need for Welsh Government to bring forward the £20m committed to support farmer compliance with the Control of Agricultural Pollution Regulations. AIC Cymru supports the call for a Wales-wide review of local planning authorities and NRW's approach to applications for new infrastructure. This aims to streamline and reduce the burden associated with undertaking work to meet regulatory requirements and environmental betterment.
- Welsh Government's commitment to providing the BPS at the same level for 2024 is welcomed and the need for timely delivery of the BPS in 2024 cannot be overstated. Moving forward, a stability measure should be included as a permanent feature of future policy to address volatility caused by factors beyond the control of individual farmers.
- On flood risk management policy, there needs to be a greater emphasis on properly valuing and protecting agricultural land.
- A flood recovery fund would also be welcome.

Met Office

**Rainfall Amount Wales Winter**

Source: HadUK-Grid 17/04/2024 12:18




**Last winter was 8th wettest winter**

**Wales Top Ten wettest winters**

1: 2016
2: 2014
3: 1995
4: 1990
5: 1869
6: 2021
7: 1994
**8: 2024**
9: 2020
10: 1960

# AIC Cymru and ForFarmers host Welsh Conservatives leader

**The Welsh Conservative Party leader Andrew RT Davies MS visited an AIC Member feed mill on 15 February to discuss priorities for agri-supply businesses and wider agriculture in Wales.**

Co-ordinated by AIC Cymru, the visit was kindly hosted by Member business ForFarmers at its animal feed manufacturing site in Carmarthen.

During the visit, Mr Davies MS acknowledged and supported the industry's concerns over the Welsh Government's Sustainable Farming Scheme (SFS) policy. Coming from a farming background, he is sympathetic to the concerns and economic impacts of the current policy direction.

The visit took place shortly before the 7 March deadline for the Welsh Government's SFS consultation. Constructive talks were had with the Leader of the Opposition in Wales on the need for an in-depth economic impact assessment of the SFS.

AIC Cymru plans to hold further meetings with Welsh politicians from other political parties in the coming months. Please get in touch with Policy Manager Michael Muncey (michael.muncey@agindustries.org.uk) if your business would be interested in hosting a visit.

Scan the QR code to watch a short video of the feed mill visit with Mr Davies MS.




# Call for action to support struggling Welsh farms

**AIC Cymru is working alongside farming unions to ask the Welsh Government and its regulator Natural Resources Wales (NRW), to do all it can to assist Welsh farmers at an acutely challenging time.**

Michael Muncey, AIC Cymru Policy Manager, said: "The events of recent months have higlighted that direct aid for Welsh farms is essential to shore up their financial stability.

"Future policies should prioritise stability measures to support food production in Wales. Food production is of strategic national importance, necessitating increased protection for agricultural land alongside other public goods.

"This is why Welsh agricultural land is so valuable, and policymakers must take steps to safeguard it when considering flood risk management decisions."




# Key dates for the diary

**Royal Welsh Show reception** — **22 July 2024**

AIC Cymru will be at the Welsh Royal show during the week of 22 July. Following the success of last year's event, we will again be holding an informal drinks reception for Members and stakeholders on the first day (22 July) in the late afternoon at the International Pavilion. Look out for full details to be shared with Members soon.

**AIC Cymru Committee meeting** — **11 June 2024**

**AIC Dinner & Conference** — **12-13 November 2024**







David Evans Vice Chair AIC Cymru (left), Caradog Hughes (centre) and Michael Muncey, AIC Cymru Policy Manager (right).

# AIC Cymru developments



**At its most recent meeting held in April, AIC Cymru warmly welcomed Caradog Hughes to the Committee as a new Member and a future leader.**

Caradog has responsibility for several depots in North Wales for AIC Member business Wynnstay. Caradog brings valuable insights as to the needs of depots and point-of-sale experience in the sector.

Gary Davies will also be joining the Committee at its June meeting. Gary will bring significant HR, employment law and compliance expertise to the Committee. He is part of the CCF organisation.

aic CYMRU agricultural industries confederation ®

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.


Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk

RDP COMMS Design & Development by RDP

Gwanwyn 24 | Rhifyn 05

# AIC Cymru

YN GWEITHIO I GEFNOGI **AMAETHYDDIAETH FODERN FASNACHOL A CHYNALIADWY**



## Croeso

**Annwyl aelodau AIC,**

**Croeso i gylchlythyr gwanwyn AIC Cymru ar gyfer 2024, sy'n dod â diweddariadau allweddol i chi ar y materion, polisïau a chyfarwyddiadau hynny sy'n benodol i Gymru.**



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# Gwaith polisi diweddaraf Cymru

**Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae AIC Cymru wedi ymgymryd ag ystod eang o faterion sydd o bwys i aelodau. Yn y cylchlythyr hwn, fe gewch chi'r newyddion diweddaraf am newidiadau gwleidyddol yng Nghymru a datblygiad polisi, yn ogystal â'r effeithiau y mae tywydd eithafol yn eu cael ar amaethyddiaeth yng Nghymru.**

Rydym wedi gweld newid gwleidyddol sylweddol yn ddiweddar gyda Vaughan Gething AS wedi'i benodi'n Brif Weinidog newydd Cymru ar 16 Mawrth.

Cynullodd ei gabinet newydd yn gyflym gyda Huw Irranca-Davies AS yn cael ei gyhoeddi fel Gweinidog y Cabinet newydd gyda rôl gyfunol o Weinidog dros Faterion Gwledig a Gweinidog Newid Hinsawdd.

Mae AIC Cymru wedi ysgrifennu at y gweinidog newydd i'w groesawu, ac i leisio cefnogaeth i'r briff gweinidogol cyfun rhesymegol sydd ganddo bellach. Gofynnwyd am gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r gweinidog er mwyn i AIC Cymru allu amlygu'r berthynas waith agos a gwerthfawr iawn gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig blaenorol, Lesley Griffiths AS, a sut y gallwn adeiladu ymhellach ar hyn.

Mae Huw Irranca-Davies yn etifeddu'r adlach, anobaith a rhwystredigaeth sylweddol sydd gan ffermwyr a rhanddeiliaid ynghylch camau gweithredu cyffredinol arfaethedig yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Daeth ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ben ddechrau mis Mawrth. Ymunodd AIC Cymru â'r ymatebion niferus sy'n lleisio pryderon mawr ynghylch y polisi presennol o ystyried asesiad effaith economaidd sylfaenol Llywodraeth Cymru ei hun, a oedd yn cyfeirio at golli dros 5,000 o swyddi, gostyngiad yn nifer y da byw gan gannoedd o filoedd, a cholled o £199 miliwn o'r sector o ganlyniad. Er na chaiff yr effaith "lluosydd" economaidd ehangach ei hasesu, byddai hyd yn oed yn fwy trychinebus.

Mae'r holl randdeiliaid sy'n gwrthwynebu, gan gynnwys AIC Cymru, yn erbyn camau gweithredu cyffredinol allweddol, yn enwedig y 10% o orchudd coed a 10% o orchudd cynefinoedd bioamrywiaeth ar bob fferm yng Nghymru. Mae hyn yn mynd yn groes i wydnwch busnes fferm a chynhyrchiant bwyd yn union fel y daw sicrwydd bwyd yn drafodaeth genedlaethol o bwys mawr.

Ar adeg ysgrifennu hwn, ni fu unrhyw fanylion am gymorth sefydlogrwydd ariannol, na dealltwriaeth glir o'r taliadau ar gyfer y camau cyffredinol hyn.

Mynegodd AIC Cymru, ynghyd â dirprwyaeth busnes lefel uchel ar gyfer darparwyr yn y byd amaeth, y pryderon hyn i Mark Alexander – Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Maes Rheoli Tir Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod caeedig ar 19 Chwefror yng Nghaerdydd.

*Continued on page 2*

Mae gan y gweinidog newydd gyfle nawr i gyd-lunio'r cynllun yn wirioneddol, ac mae AIC Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnig ei fewnbwn, ei arbenigedd a'i ymrwymiad i broses o'r fath wrth symud ymlaen.

Mae'r holl ansicrwydd hwn wedi'i osod yn erbyn cefndir o dywydd gwlyb hirfaith sydd wedi cael effeithiau eithafol ar amaethyddiaeth yng Nghymru, gan amlygu'r angen dybryd am gydnabyddiaeth gan y llywodraeth a mesurau tymor byr i gefnogi'r sector ffermio.


Roedd yn galonogol bod y gweinidog wedi cynnull cyfarfod rhanddeiliaid ar-lein i gael mewnwelediadau uniongyrchol ac o lygad y ffynnon a chamau gweithredu a awgrymwyd. Gwahoddwyd AIC Cymru i fod yn bresennol a gofynnwyd i ni ddarparu ein hasesiad o bersbectif diwydiant darparwyr i'r byd amaeth.

Mae AIC Cymru wedi pwysleisio bod y tywydd gwlyb eithafol unwaith eto yn tanlinellu'r angen i Lywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd polisi yn y dyfodol sy'n rhoi sefydlogrwydd i fusnesau fferm i ddiogelu cynhyrchiant bwyd domestig mewn cyfnod o ansefydlogrwydd.

# Mae tywydd gwlyb yn cael effaith ar amaethyddiaeth yng Nghymru

**Mae'r gofynion allweddol canlynol wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i geisio cymorth i gefnogi ffermwyr drwy'r argyfwng presennol:**

- Yn y tymor byr, rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos hyblygrwydd wrth gyflawni gofynion cynlluniau amrywiol, gan gynnwys trawsgydymffurfio ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau buddsoddi gwledig eraill, megis y cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd, gan gyflwyno rhanddirymiadau lle bo angen.
- Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) weithio gyda ffermwyr a mabwysiadu dull synhwyrol tuag at reoleiddio sy'n dangos hyblygrwydd a dealltwriaeth o'r amodau ar lawr gwlad.
- Er mwyn meithrin cydnerthedd tymor hwy, mae angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r £20 miliwn sydd wedi'i ymrwymo i gefnogi cydymffurfedd ffermwyr â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae AIC Cymru yn cefnogi'r alwad am adolygiad Cymru gyfan o awdurdodau cynllunio lleol a dull CNC o ymdrin â cheisiadau am seilwaith newydd. Nod hyn yw symleiddio a lleihau'r baich sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â gwaith i fodloni gofynion rheoliadol a gwella'r amgylchedd.
- Croesewir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu Cynllun y Taliad Sylfaenol ar yr un lefel ar gyfer 2024 ac ni ellir gorbwysleisio'r angen i gyflawni Cynllun y Taliad Sylfaenol mewn ffordd amserol yn 2024. Wrth symud ymlaen, dylid cynnwys mesur sefydlogrwydd fel nodwedd barhaol o bolisi'r dyfodol i fynd i'r afael ag anweddolrwydd a achosir gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth ffermwyr unigol.
- O ran polisi rheoli perygl llifogydd, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar brisio ac amddiffyn tir amaethyddol yn iawn.
- Byddai cronfa adferiad yn sgil llifogydd hefyd yn cael ei chroesawu.



# Mae AIC Cymru a ForFarmers yn croesawu arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig

**Ymwelodd arweinydd Plaid Geidwadol Cymru, Andrew RT Davies AS, â melin fwydo aelod AIC ar 15 Chwefror i drafod blaenoriaethau ar gyfer busnesau sy'n darparu ar gyfer y byd amaeth ac amaethyddiaeth ehangach yng Nghymru.**

Wedi'i gydlynu gan AIC Cymru, cynhaliwyd yr ymweliad yn garedig gan yr aelod-fusnes ForFarmers yn ei safle gweithgynhyrchu porthiant anifeiliaid yng Nghaerfyrddin.

Yn ystod yr ymweliad, cydnabu a chefnogodd Mr Davies AS bryderon y diwydiant ynghylch polisi Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn dod o gefndir ffermio, mae'n cydymdeimlo â phryderon ac effeithiau economaidd y cyfeiriad polisi presennol.

Cynhaliwyd yr ymweliad ychydig cyn y dyddiad cau ar 7 Mawrth ar gyfer ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaethau adeiladol ag Arweinydd yr Wrthblaid yng Nghymru ar yr angen am asesiad effaith economaidd treiddgar o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae AIC Cymru yn bwriadu cynnal cyfarfodydd pellach gyda gwleidyddion Cymru o bleidiau gwleidyddol eraill yn y misoedd nesaf. Cysylltwch â'r Rheolwr Polisi Michael Muncey (michael.muncey@agindustries.org.uk) os byddai gan eich busnes ddiddordeb mewn cynnal ymweliad.

Sganiwch y cod QR i wylio fideo byr o'r ymweliad â'r felin fwydo gyda Mr Davies AS.




# Galw am weithredu i gefnogi ffermydd Cymru sy'n ei chael hi'n anodd

**Mae AIC Cymru yn gweithio ochr yn ochr ag undebau ffermio i ofyn i Lywodraeth Cymru a'i rheoleiddiwr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wneud popeth o fewn eu gallu i gynorthwyo ffermwyr Cymru ar adeg hynod heriol.**

Dywedodd Michael Muncey, Rheolwr Polisi AIC Cymru: "Mae digwyddiadau'r misoedd diwethaf wedi tynnu sylw at y ffaith bod cymorth uniongyrchol i ffermydd Cymru yn hanfodol er mwyn rhoi hwb i'w sefydlogrwydd ariannol.

"Dylai polisïau'r dyfodol roi blaenoriaeth i fesurau sefydlogrwydd i gefnogi cynhyrchiad bwyd yng Nghymru. Mae cynhyrchiad bwyd o bwysigrwydd cenedlaethol strategol, gan olygu bod angen mwy o amddiffyniad i dir amaethyddol ochr yn ochr â nwyddau cyhoeddus eraill.

"Dyma pam mae tir amaethyddol Cymru mor werthfawr, a rhaid i lunwyr polisi gymryd camau i'w ddiogelu wrth ystyried penderfyniadau rheoli perygl llifogydd."




# Dyddiadau allweddol ar gyfer y dyddiadur

| Derbyniad Sioe Frenhinol Cymru | 22 Gorffennaf 2024 |
|---|---|

Bydd AIC Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru yn ystod wythnos 22 Gorffennaf. Yn dilyn llwyddiant digwyddiad y llynedd, byddwn unwaith eto yn cynnal derbyniad â diodydd anffurfiol ar gyfer aelodau a rhanddeiliaid ar y diwrnod cyntaf (22 Gorffennaf) yn hwyr yn y prynhawn yn y Pafiliwn Rhyngwladol. Cadwch olwg am fanylion llawn i'w rhannu gydag aelodau yn fuan.

| Cyfarfod Pwyllgor AIC Cymru | 11 Mehefin 2024 |
|---|---|
| Cinio a Chynhadledd AIC | 12-13 Tachwedd 2024 |







Llun o Caradog (canol) gyda David Evans, Is-gadeirydd AIC Cymru (chwith), a Michael Muncey, Rheolwr Polisi AIC Cymru.

# Datblygiadau AIC Cymru



**Yn ei gyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Ebrill, croesawodd AIC Cymru Caradog Hughes yn gynnes i'r pwyllgor fel aelod newydd ac arweinydd y dyfodol.**

Mae gan Caradog gyfrifoldeb dros sawl depo yng Ngogledd Cymru ar gyfer busnes Wynnstay, sy'n aelod o AIC. Mae Caradog yn dod â mewnwelediadau gwerthfawr o ran anghenion depos a phrofiad man gwerthu yn y sector.

Bydd Gary Davies hefyd yn ymuno â'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Bydd Gary yn dod ag arbenigedd adnoddau dynol, cyfraith cyflogaeth a chydymffurfio sylweddol i'r pwyllgor. Mae'n rhan o sefydliad Gwlad a Fferm CCF.

aic CYMRU agricultural industries confederation ®

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: **01733 385230**
Email: **enquiries@agindustries.org.uk**

RDP COMMS Design & Development by RDP